Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Sefydledig Llanerfyl
# Llanerfyl
# Y Trallwng
# Powys
# SY21 0HZ

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Llanerfyl yn ysgol sefydledig yr Eglwys yng Nghymru. Lleolir yr ysgol ym mhentref gwledig Llanerfyl, ger y Trallwng, yn awdurdod lleol Powys. Mae 38 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr, rhwng tair ac 11 oed.

Mae bron pob un disgybl o darddiad Gwyn Prydeinig, a Chymraeg yw mamiaith llawer ohonynt. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd llawer is na’r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae’r ysgol yn nodi bod gan ryw 23% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn ychydig yn uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol. Nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol yn Nhachwedd 2008. Mae’r pennaeth dros dro ar secondiad o ysgol arall am flwyddyn ac wedi bod yn ei swydd er Medi 2014.

Mae’r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Llanerfyl yn 2014-2015 yn golygu mai’r gyllideb yw £4,054 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Mhowys yw £13,848 a’r isafswm yw £3,007. Mae Ysgol Gynradd Llanerfyl yn safle 26 allan o’r 86 ysgol gynradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn cyflawni a gwneud cynnydd addas;
- agweddau positif gan y disgyblion tuag at ddysgu;
- yr ysgol yn sicrhau datblygiad ysbrydol, personol a chymdeithasol a lles disgyblion yn llwyddiannus;
- bron pob un disgybl yn ymddwyn yn gyfrifol;
- cymuned ddiogel a gofalgar yn bodoli, sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal;
- staff yn defnyddio'r adeilad a'r ardal tu allan yn effeithiol; a bod
- partneriaethau buddiol iawn gyda'r rhieni a'r gymuned leol.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig;
- nid yw safonau'r disgyblion mewn mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gadarn;
- mae ansawdd cynllunio gwersi yn anghyson ac mae diffyg dilyniant yn y profiadau dysgu; ac
- nid yw'r addysgu a'r asesu yn gwneud digon i herio disgyblion yn unol â'u galluoedd.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd bod:

- y pennaeth dros dro yn dechrau cyflwyno gwelliannau trwy systemau a mentrau newydd;
- y llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol; a bod
- y cynllun gwella cyfredol wedi ei seilio'n briodol ar ddeilliannau'r hunanarfarniad.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinyddiaeth hyd yma wedi cael digon o effaith ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth;
- nid yw'r cynllun gwella yn cynnwys agweddau pwysig ar y ddarpariaeth sydd angen eu gwella; ac
- nid yw'r llywodraethwyr yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigon trylwyr.

## Argymhellion

A1 Gwella gallu'r disgyblion i ysgrifennu yn annibynnol ac ymestynnol

A2 Gwella safonau mathemateg

A3 Datblygu medrau TGCh y disgyblion

A4 Sicrhau bod cynlluniau gwersi yn nodi dilyniant cyson ym mhob pwnc a phob maes dysgu

A5 Gwella'r addysgu a'r asesu er mwyn herio disgyblion yn unol â'u galluoedd

A6 Datblygu rolau strategol y tîm rheoli newydd a'r llywodraethwyr yn y systemau gwella ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sydd uwchlaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau siarad a gwrando llawer o ddisgyblion yn gadarn. Maent yn trafod ac ystyried cysyniadau gwahanol ar draws y cwricwlwm â hyder. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio iaith briodol ar draws y cwricwlwm yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft trwy ddisgrifio ansoddeiriau diddorol am fywyd fel ymgilwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn y dosbarth a thu allan i wersi.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer o ddisgyblion ddarllen gyda rhuglder cynyddol. Maent yn talu sylw'n ystyrlon i atalnodi er mwyn darllen â synnwyr. Mae ychydig o ddisgyblion yn gallu trafod ystyr idiomau cyffredin yn ddeallus. Gwnânt ddefnydd da o'u uwch fedrau darllen i ragfynegi'r hyn sy'n digwydd nesaf mewn stori. Mae ychydig o'r disgyblion yn defnyddio llais a goslef synhwyrol yn effeithiol tra'n darllen ar goedd.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen i safon sydd o leiaf yn briodol i'w gallu. Gall llawer ohonynt ateb cwestiynau'n synhwyrol am y gwahanol fathau o ysgrifennu y maent yn eu darllen, fel esboniadau a chyfarwyddiadau. Maent yn deall pwrpas llyfrau ffeithiol ac maent yn rhannu eu barn yn llwyddiannus ar lafar am eu hoff awduron.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 fel ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft wrth lunio llythyron personol a gwahanol fathau o farddoniaeth fel 'haiku' a 'cinquain'. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion sy'n ymestyn eu hysgrifennu yn annibynnol, heb ymyrraeth oedolyn. Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad y gwaith yn briodol ar draws yr ysgol.

Gyda chymorth, gall mwyafrif o'r disgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen gyfrif, trefnu a didoli rhifau i 10 yn gywir. Maent yn adnabod siapiau fel sgwâr, petryal, triongl a chylch ac yn eu defnyddio'n effeithiol yn ymarferol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio bondiau rhif i fyny i 20 yn llwyddiannus ac mae'r mwyafrif yn adeiladu siapiau tri dimensiwn fel ciwb a chiwboid yn ddeallus. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion sy'n hyderus wrth drafod a defnyddio eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn effeithiol wrth ddadansoddi a datrys problemau.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith fathemategol yn gyson gywir mewn ystod o gyd-destunau. Maent yn defnyddio nodiant degol yn briodol wrth adio i gyrraedd cyfanswm. Mae gan y rhan fwyaf o

ddisgyblion ddealltwriaeth foddhaol o sut i gyflwyno gwahanol ddata. Fodd bynnag, mae safonau mathemateg ar draws cyfnod allweddol 2 yn anwastad. Mae llawer o ddisgyblion yn or-ddibynnol ar arweiniad oedolyn mewn mathemateg ac nid ydynt yn defnyddio'u gwybodaeth fathemategol ar draws y cwricwlwm yn annibynnol.

Mae medrau TGCh bron pob un o'r disgyblion heb ymsefydlu'n gadarn. Maent yn dyfalbarhau ac ymdrechu'n bwrpasol wrth orffen tasgau TGCh. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o fedrau TGCh ar draws y cwricwlwm i ddod o hyd i, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf, ychydig bach o ddisgyblion oedd yn y grwpiau blwyddyn i'w hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. O ganlyniad, gall hyn effeithio ar berfformiad yr ysgol o'i gymharu â meincnodau ysgolion tebyg a'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Yn 2014, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer llythrennedd o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd hyn yn welliant o 2012 a 2013, pan oedd llythrennedd naill ai yn y 50% is neu'r 25% isaf. Mewn datblygiad mathemategol, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf yn 2013 a 2014.

Ar y deilliant 6 uwch na'r disgwyl, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer llythrennedd yn 2014. Roedd hyn yn welliant o 2012 a 2013, pan oedd llythrennedd yn gyson yn y 50% is. Mae datblygiad mathemategol wedi bod naill ai yn y 50% is neu'r 25% isaf er 2012.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg, ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4), wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf. Mae hyn yn welliant o'r ddwy flynedd flaenorol, lle gosodwyd yr ysgol yn y 50% is a'r 25% isaf. Dros y cyfnod hwn mae'r perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn debyg i'r Gymraeg.

Ar lefel 5, mae perfformiad disgyblion dros y pedair blynedd diwethaf mewn Saesneg a Chymraeg wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf. Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% uchaf. Mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi tueddu aros yn y 25% uchaf dros y cyfnod hwn.

O ystyried tystiolaeth gwaith disgyblion dros amser, nid yw asesiadau'r Cyfnod Sylfaen nac yng nghyfnod allweddol 2 yn adlewyrchiad cywir o'r safonau, yn enwedig ar y deilliant a'r lefel uwch na'r disgwyl.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta'n iach ac yn cyflawni'n dda o ran eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Dywed bron pob un disgybl eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn yr ysgol a'u bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio.

Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac mae bron pob un ohonynt yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a'u cyfoedion. Maent yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi. Mae'r disgyblion yn meddu ar ymwybyddiaeth gadarn o'r gymuned leol yn sgil eu cysylltiadau â'r eglwys, y capel a neuadd y pentref.

Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod safbwyntiau eu cyd-ddisgyblion a'u syniadau. Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn trefnu gweithgareddau i gefnogi elusennau. Maent yn gwneud penderfyniadau synhwyrol ac yn cydweithio yn effeithiol gyda'r rhieni a ffrindiau'r ysgol i sicrhau cyllid er mwyn prynu cyfarpar allanol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn brydlon wrth gyrraedd yr ysgol. Mae lefelau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol rhwng y 50% uwch a'r 50% isaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae cyfradd bresenoldeb disgyblion yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol â phresenoldeb ysgolion tebyg dros gyfnod.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Darperir ystod eang o brofiadau dysgu priodol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn y dysgu. Mae'r cwricwlwm yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen. Mae gweithgareddau i gyfoethogi ac ymweliadau addysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau rhoi sylw priodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r cynllunio o ddydd i ddydd yn anghyson ac nid yw bob amser yn herio disgyblion yn unol â'u galluoedd yn ddigon effeithiol. Mae'r cynllunio diweddar yn dechrau ffocysu'n briodol ar ddatblygu'r meysydd dysgu, ystod y pynciau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r dilyniant yn y medrau wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol. Nid yw'r athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig annibynnol a'u medrau TGCh.

Mae'r grwpiau ymyrraeth i wella safonau unigolion yn cael eu trefnu'n drwyadl. Mae'r profiadau dysgu yn yr ardaloedd awyr agored ac yn yr adeilad yn darparu gweithgareddau buddiol sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu. Mae gwaith cartref rheolaidd yn adeiladu'n gadarn ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu yn y dosbarth.

Heblaw am y diffyg cyfleoedd i ysgrifennu yn ymestynnol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad disgyblion yn y Gymraeg yn gymwys ar draws yr ysgol. Mae cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy olrhain hanes cymeriadau lleol yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn addas ar draws y cwricwlwm. Mae'r pwyllgor eco wedi cyfrannu tuag at welliannau effeithiol mewn ailgylchu ac arbed ynni.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r staff yn llwyddo i feithrin a chynnal cydberthynas bositif rhyngddynt a'r disgyblion, ac yn creu amgylchedd dysgu priodol yn y gwersi. Mae ethos hapus ac ymdeimlad o barch yn amlwg yn y dosbarthiadau, gyda phob un o'r staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol. Mae disgyblion yn elwa o'r ffaith bod yr oedolion yn siarad yn sensitif â nhw ac yn eu canmol am ansawdd eu gwaith.

Yn y mwyafrif o wersi, mae gwybodaeth bynciol gadarn, holi medrus ac amrywiaeth o ddulliau addysgu yn ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r holl staff yn cynnig modelau iaith da. Serch hynny, yn y lleiafrif o wersi lle nad yw'r addysgu cystal, mae'r cyflwyniadau a chyflymdra'r gwersi yn rhy hir a rhy araf ac nid oes digon o her i'r disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae diffyg cyfleoedd i'r disgyblion ymestyn eu gwaith, eu gwybodaeth a'u hannibyniaeth wrth ddysgu. Nid oes digon o ystyriaeth i lefelau gallu gwahanol mewn dosbarth i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd llawn.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r marcio bob amser yn dangos y ffordd ymlaen i ddisgyblion i wella'u gwaith. Mae'r broses o osod targedau personol ar gyfer y disgyblion yn dechrau effeithio'n gadarnhaol ar waith unigolion.

Nid yw'r broses o lefelu a chymedroli gwaith disgyblion dros amser yn ddibynadwy. O ganlyniad, nid yw lefelu cyrhaeddiad y disgyblion yn gyson gywir.

Mae adroddiadau i rieni yn adrodd yn glir ar gynnydd disgyblion, ynghyd â nodi targedau priodol ar gyfer yr hyn i'w wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal. Mae'n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, yn enwedig trwy ei chysylltiadau agos â'r eglwys leol. Mae trefniadau buddiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion a'u hannog i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol a'r gymuned ehangach. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion. Mae'r staff yn hyrwyddo parch a sensitifrwydd tuag at bobl eraill yn gyson ym mhob dosbarth. Mae'r agwedd hon yn gryfder yn yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn nodi anghenion disgyblion yn effeithlon. Caiff gwybodaeth o arsylwadau a phrofion ystafell ddosbarth ei dadansoddi'n ofalus i ddarparu ystod addas o raglenni cymorth. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir a gall disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fanteisio'n llawn ar holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn bwrpasol i gefnogi'r addysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gyfeillgar sydd yn sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel. Mae’r modd y mae’r awyrgylch teuluol yn treiddio i bob agwedd ar fywyd yr ysgol yn gryfder. Mae’r ethos cadarnhaol yn annog pob disgybl i drin pobl eraill yn deg a dangos parch at ei gilydd. Mae’r ysgol yn darparu cyfle cyfartal ac mae’n gwbl gynhwysol.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithlon o’r amgylchedd allanol a defnyddir adeilad yr ysgol yn bwrpasol. Mae’r adnoddau chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn cyfoethogi dysgu disgyblion. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o neuadd y pentref a’r cae chwarae lleol, sy’n ymestyn profiadau dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae’r arddangosfeydd atyniadol yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu a dathlu gwaith disgyblion yn effeithiol. Mae ystod addas o adnoddau yn yr ysgol sydd yn cefnogi dysgu’r disgyblion yn briodol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae’r pennaeth gweithredol yn 2013 a’r pennaeth dros dro er Medi 2014 wedi rhannu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu’r ysgol gyda’r staff a’r llywodraethwyr. Yn ddiweddar, sefydlwyd strategaethau cadarn er mwyn mynd i’r afael â diffygion mewn agweddau pwysig ar y ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol. Mae’r trefniadau newydd o fonitro a gosod targedau ar gyfer gwelliant yn drwyadl. Er hynny, nid yw arweinyddiaeth hyd yma wedi cael digon o effaith ar godi safonau a gwella’r ddarpariaeth.

Yn dilyn cyfnod o newidiadau sylweddol ymysg y staff a’r arweinwyr, mae’r ethos o weithio fel tîm er mwyn sicrhau gwelliant erbyn nawr yn gryfder. Mae staff yn ymgymryd â’r newidiadau diweddar yn eu cyfrifoldebau yn gydwybodol.

Mae’r cyfarfodydd staff yn y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio’n addas ar godi safonau, gwella darpariaeth a rhannu arferion da. Mae gan y staff ddealltwriaeth briodol o gryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae’r systemau rheoli perfformiad yn cyfrannu’n dda at eu dealltwriaeth, ac mae eu targedau yn uniongyrchol gysylltiedig â blaenoriaethau’r cynllun gwella.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn. Maent yn rhan o’r broses hunanarfarnu ac o bennu blaenoriaethau ar gyfer y cynllun gwella. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf maent wedi dechrau trafod data cyrhaeddiad y disgyblion, ymweld â dosbarthiadau a gwrando ar ddysgwyr. Mae hyn oll yn cyfrannu’n dda at gryfhau eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, dros gyfnod o amser nid yw’r llywodraethwyr wedi dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigon cadarn. Nid ydynt ychwaith wedi talu digon o sylw i sefyllfa ariannol yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Yn gymharol ddiweddar, mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r trefniadau yn talu sylw priodol i lais y dysgwyr, y llywodraethwyr, y staff a'r rhieni. Fodd bynnag ,nid yw'r gweithdrefnau hyd yma yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata cyrhaeddiad y disgyblion. Defnyddir y wybodaeth i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella yn effeithiol. Er hynny, nid yw'r adroddiad yn ddigon arfarnol mewn mannau. Nid yw bob amser yn rhoi darlun digon eglur o effaith y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar safonau a lles y disgyblion.

Mae blaenoriaethau'r cynllun gwella yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi blaenoriaethu agweddau pwysig yn y ddarpariaeth sydd angen eu gwella, er enghraifft cywirdeb yr asesu. Mae'r cynllun yn dynodi'r rheini sydd â chyfrifoldeb, graddfeydd amser a thargedau mesuradwy. Gwneir defnydd addas o arfarniad y cynllun gwella blaenorol er mwyn llywio'r cynllun cyfredol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd yn erbyn mwyafrif yr argymhellion o'r adroddiad arolygu diwethaf. Fodd bynnag, mae'r angen i gryfhau'r cyswllt rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau hunan arfarnu a'r cynllun gwella yn parhau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas fuddiol rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal a chymorth a gaiff eu plant ac yn rhoi o'u hamser yn hael i gefnogi'r ysgol. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r ysgol i rannu profiadau er mwyn ehangu ac atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu am fywyd yn anialwch y Sahara, a dysgu am draddodiad bedyddio yn y ffydd Gristnogol.

Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol yn cyfoethogi eu profiadau dysgu yn effeithiol. Maent yn cynnwys cynnal gwasanaethau yn y capel a'r eglwys a chystadlu yn yr eisteddfod leol. Mae'r disgyblion yn paratoi adnoddau, a'u gwerthu ar stondinau yn ffair y pentref yn flynyddol. Mae hyn yn datblygu medrau menter y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae cysylltiadau agos â'r cylch meithrin a'r ysgol uwchradd. Mae'r trefniadau trosglwyddo yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n hyderus wrth iddynt symud ymlaen at y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r bartneriaeth gadarn â'r awdurdod lleol wedi bod yn gaffaeliad i'r ysgol yn ystod cyfnod o ansefydlogrwydd o ran staffio. Mae'r ysgol yn cydweithio'n fuddiol ag asiantaethau arbenigol i gefnogi unigolion bregus pan fo angen.

Mae ysgolion y clwstwr yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn safoni a chymedroli gwaith y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r arfer dda hon wedi sicrhau dilysrwydd asesiadau athrawon dros amser.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Er gwaethaf y newidiadau sylweddol o ran staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi llwyddo i gynnal cyflenwad llawn o athrawon sydd â chymwysterau priodol. Mae'r staff cynorthwyo yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol tra'n gweithio gyda grwpiau o ddysgwyr ac unigolion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r staff i gyd yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm ac yn rhannu gweledigaeth y pennaeth newydd er mwyn sicrhau gwelliant.

O fewn amser byr, mae'r pennaeth wedi cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad gyda'r staff i gyd. Yn deillio o'r cyfarfodydd, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant mewnol er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'u rôl er mwyn cyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r trefniadau cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer yr athrawon yn effeithlon. Gwneir defnydd da o arbenigedd athrawon penodol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd ar waith i dargedu disgyblion anghenus.

Caiff adnoddau ariannol eu dyrannu'n briodol er mwyn bodloni blaenoriaethau'r cynllun gwella. Fodd bynnag, dros gyfnod o amser, nid yw'r arweinyddion wedi rheoli gwariant yn ddigon effeithiol. Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi trafod a chytuno ar gynllun gwariant er mwyn lleihau'r gwarged sylweddol yng nghyllid yr ysgol. Mae'r cynlluniau yn addas ac yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau a gwella darpariaeth.

O ystyried safonau disgyblion, digonol yw'r gwerth am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6665200 - Ysgol Llanerfyl**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 41 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.1 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 6 | 7 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 71.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 7 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 71.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.7 | 28.6 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 7 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 28.6 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 7 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 85.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 66.7 | 57.1 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6665200 - Ysgol  Llanerfyl**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 41 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 5 | 8 | 6 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 80.0 | 87.5 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 8 | 6 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 87.5 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 37.5 | 66.7 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 8 | 6 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 75.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.0 | 25.0 | 66.7 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 8 | 6 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 87.5 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 37.5 | 83.3 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 8 | 6 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 87.5 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 60.0 | 50.0 | 66.7 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 24 | 24<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 24 | 24<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 24 | 24<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 24 | 24<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 24 | 5<br>21%<br>96% | 19<br>79%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 24 | 24<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 24 | 24<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 24 | 24<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 24 | 21<br>88%<br>91% | 3<br>12%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 24 | 24<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 24 | 23<br>96%<br>77% | 1<br>4%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 24 | 18<br>75%<br>84% | 6<br>25%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 20 | 16 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 20 | 17 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 20 | 17 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 20 | 14 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 70% | 25% | 5% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 20 | 16 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 19 | 13 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 0% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 0% | 100% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 20 | 14 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 19 | 14 | 5 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 19 | 15 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 19 | 15 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 79% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 20 | 12 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 20 | 15<br>75% | 5<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 19 | 13<br>68% | 5<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 4 | 1<br>25% | 2<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 19 | 14<br>74% | 5<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 20 | 14<br>70% | 6<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 20 | 16<br>80% | 4<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Steffan Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Wyn Thomas-Pearson | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.